Ceolta Sí (Cerddoriaeth y Tylwyth Teg)

Am y grŵp:
Cafodd Craobh Eochaille (Cangen Achill) CCÉ eu sefydlu 25 o flynyddoedd yn ôl. Erbyn hyn yn eu canolfan newydd a adeiladwyd yn bwrpasol, sef Brú na Sí (Llety'r Tylwyth Teg), mae'r gangen yn weithgar yn y gymuned leol gydol y flwyddyn. Maen nhw'n cynnig dosbarthiadau mewn cerddoriaeth draddodiadol Wyddelig ar gyfer nifer o wahanol offerynnau yn cynnwys yr acordion botymau, y bib dun, y ffliwt, y ffidil, y consertina, y banjo a'r mandolin, yn ogystal â dawnsio Gwyddelig. Mae'r grŵp, Ceolta Sí, yn chwarae'n rheolaidd yn y ganolfan. Mae Ceolta Sí yn cyfuno aelodau cangen leol Comhaltas (Y Gymdeithas) ac mae'n ymestyn allan i'r gymuned. Mae'r grŵp yn ceisio pob tro creu cysylltiadau a chydweithio gydag eraill yn y gymuned gerddorol leol. Mae'r perfformiadau gan Ceolta Sí yn ganlyniad i'r cysylltiadau cadarn rhwng y grŵp, cangen leol Comhaltas Ceoltóirí Éireann (Cymdeithas Cerddorion Iwerddon) a'r gymuned gelfyddydol ehangach.

Mae Ceolta Sí yn un o'r grwpiau perfformio mwyaf poblogaidd a llwyddiannus o'u math. Maen nhw'n chwarae'n rheolaidd yn nwyrain Corc ac mae llawer o'r arian y mae eu cyngherddau wedi ei godi wedi mynd i elusennau lleol. Yn benodol, mae llawer o'r arian wedi mynd i godi'r Brú na Sí, canolfan leol ar gyfer cerddoriaeth ac addysg. Yn y blynyddoedd diweddar mae'r grŵp wedi dechrau teithio'n eang iawn, gan ymweld â Chymru, y Weriniaeth Siec, Mecsico, yr Eidal a Tsieina yn ystod y ddwy flynedd a aeth heibio gyda nifer o deithiau eraill ar y gweill.

Mae dau grŵp arall wedi eu datblygu yn nwyrain Corc yn ystod y ddwy flynedd a aeth heibio, sef Lár na Cruinne (Canolbwynt y Bydysawd) a Draíocht an Oileáin (Hud yr Ynys). Y disgwyl yw mai'r ddau fand yma fydd y grwpiau a fydd yn cynrychioli treftadaeth gerddorol ddwyrain Corc a chynnig cynulleidfa wybodus ar gyfer artistiaid sy'n ymweld. Rhyngddyn nhw, mae gan y tri grŵp bron i gant o aelodau. Mae ychwaneg o grwpiau wedi eu cynllunio ar gyfer y blynyddoedd sydd ar ddod.

Mae aelodau'r tri grŵp yn cydnabod gwerth cydweithio diwylliannol a phwysigrwydd cyflwyno perfformiadau o safon broffesiynol ar y llwyfan rhyngwladol. Mae'r holl alwadau y maen nhw'n eu cael i ddod yn ôl yn arwydd o'u llwyddiant, yn ogystal â'r cysylltiadau clos y mae Ceolta Sí wedi eu datblygu gyda nifer o lysgenadaethau a sefydliadau a gwyliau rhyngwladol. Mae'r llwyddiant yn porthi gweithgarwch lleol ym maes y celfyddydau ac mae'n rhoi hwb ychwanegol i bob oedran gymryd rhan yn y celfyddydau yn nwyrain Corc a gorllewin Waterford.